

# Wedi ei fwriadu ar gyfer y tân

*“Y mae'r glaswellt yn crino, a'r blodeuyn yn syrthio, ond y mae gair yr Arglwydd yn aros am byth.” (adn. 24–25)*

## Beth am ddarllen 1 Pedr 1:13–25 ac yna myfyrio

Mae un peth arall sydd angen ei ystyried gyda golwg ar awdurdod a natur ddibynadwy y Beibl cyn i ni symud ymlaen i edrych ar ffynhonnau eraill sydd mewn peryg o gael eu cau gan y meddylfryd Philistaidd sy'n perthyn i'n cyfnod. Yr un peth hwnnw, fel y dywed ein testun heddiw, yw fod Gair ein Duw ni yn sefyll am byth.

Fe ddywedir wrthym yn yr adran a ddarllenwyd fod pethau amser yn bethau sydd â gwerth dros amser. Ym mhennod 3 o'i ail lythyr, mae Pedr yn ein rhybuddio fod y nefoedd a'r ddaear ar fin cael eu difa gan dân, ac yna fe ddaw nefoedd newydd a daear newydd. Rwy'n cofio clywed am ddyn yn adrodd sut y bu iddo gerdded i mewn i'w dŷ wedi storm a darganfod fod popeth ar y llawr gwaelod wedi ei falurio yn llwyr, a hynny gan effaith y dŵr. Fe aeth i fyny'r grisiau ac estyn am ei Feibl oedd yn gorwedd wrth ymyl ei wely gan ei agor yn y bennod yr wyf newydd gyfeirio ati, 2 Pedr 3, ac yno fe ddarllenodd am bopeth oedd yn cael ei losgi gan dân. Y meddwl a ddaeth iddo, meddai, oedd hyn: paid â phoeni am y pethau hyn a gollwyd; roeddent ar fin cael eu llosgi, beth bynnag. Credaf ei bod yn werth sylwi fod y cyfan a roddwn ar ein silffoedd – ein tariannau, a'n pethau gwerthfawr – pethau yr ydym yn eu dangos i eraill ac yn ymfalchïo gymaint ynddynt wedi eu bwriadu ar gyfer y tân. Ond nid felly llyfr Duw. Mae'r gwirionedd sydd ynddo am bara trwy'r cyfan ac am fod yn sail i'n dyfodol. Gallwch fod yn sicr o hynny.

Mae'r eglwysi hynny sydd yn gwadu gwirionedd ac awdurdod y Beibl, gan fynnu fod ganddynt hawl i benderfynu beth sydd yn gywir ynddo a beth sy'n anghywir, yn gwneud rheswm dynol yn awdurdod, gan fynnu eu bod yn gwybod yn well na Duw. Daw rheswm wedyn yn safon, ac nid datguddiad Duw. O fewn yr eglwysi hynny, rwy'n gofidio fod y ffynnon yma wedi ei chau yn llwyr.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 21:33; 1 Cor. 3:5–15; 2 Pedr 3:10–11

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd i'w ddifa gan dân?
2. Beth fydd yn aros?

## Gweddi

O Dduw, rwy'n diolch i ti am y bobl hynny sydd wedi fy nysgu i fod yn hyderus yn yr Ysgrhythurau. Trwy'r un Ysbryd a ddaeth â'r Gair i fod yn y cychwyn, rwy'n gofyn i ti anadlu eto ar y rhai sydd heb feddu'r hyder hwn. Amen.